

Stryd y Castell

Gwybodaeth Atodol



Stryd y Castell: Cynllun Parhaol

Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau)

Pan fydd glaw yn disgyn yn yr amgylchedd naturiol, mae nodweddion naturiol fel coed, planhigion, gweiriau, pridd, ynghyd ag afonydd a nentydd yn

helpu i brosesu'r dŵr hwn ac mae hyn yn ffurfio rhan annatod o'r cylch dŵr. Yn yr amgylchedd adeiledig, caiff camau arferol y cylch dŵr eu llesteirio'n ddifrifol. Mae'r problemau sy'n deillio o'r difrod i'r cylch hwn yn cynnwys llifogydd, llygredd ac erydu. Mae'r dŵr hwn na all fynd i mewn i'r cylch dŵr naturiol yn rhoi straen ychwanegol ar y system garthffosiaeth. Mae SDCau yn ddull naturiol o reoli dŵr wyneb drwy greu 'safle prosesu dŵr bychan'.

Manteision SDCau:

- Mesurau gostegu traffig naturiol.
- Improve the micro-climate.
- Gwella ansawdd yr aer.
- Dod â natur i'r amgylchedd trefol.

Mae llochesi bws bioamrywiol a Gerddi Glaw yn enghreifftiau o SDCau.


Lleoliadau plannu

Mae canopiau sy'n ffurfio ar frig coed, yn dal y glaw, sy'n anweddu'n raddol, gan leihau'r dŵr sy'n cyrraedd yr arwyneb.

Llochesi bws bioamrywiol: yn cefnogi ecosystemau ac yn darparu lleoliad hidlo dŵr glaw.

Llochesi bws bioamrywiol: yn cynnwys cyfuniad o blanhigion gwyrdd a blodau gwyllt. Byddan nhw'n denu ac yn cynnal pryfed a bywyd gwyllt arall.

Gardd Law



Llochesi bws bioamrywiol

Gyda chyfuniad o wahanol blanhigion, maen nhw'n helpu i leihau ac arafu'r dŵr sy'n mynd i'r system ddraenio, a bydd to cyfan y lloches bws yn creu cynefin i gynnal pryfed a bywyd gwyllt arall. ynghyd ag amrywiaeth eang o flodau gwyllt.

Gerddi Glaw

Mae Gardd Glaw fel arfer yn ardal wedi ei phlannu, gydag amrywiaeth o rywogaethau, ac mae'r planhigion yn cyflawni sawl swyddogaeth allweddol; yn dal a glanhau dŵr glaw a dŵr wyneb ffo. Mae'r cyfaint is o ddŵr naill ai'n draenio i gwrs dŵr naturiol neu i'r system ddraenio.

Trawstoriad Gardd Law

Mae manau gwyrdd yn gwella'r amgylchedd dinesig.

Caiff halogion eu tynnu o'r dŵr wyneb ffo gan y llystyfiant.


Gyli: caiff dŵr wyneb ei ddraenio i'r ardd law yn hytrach nag i ddraeniau'r ffordd fawr.

Troedffordd

Ardal hidlo: planhigion a llystyfiant yn helpu i waredu halogion cyn i'r dŵr fynd i mewn i'r systemau carthffosiaeth.

Lôn gerbydau

System ddraenio: cyfaint llai o ddŵr yn mynd i'r system.





Stryd y Castell: Cynllun Parhaol

Gwybodaeth am y Beicffordd

Beicffordd i'r ddau gyfeiriad

- Bydd beicffordd pwrpasol yn cael ei hadeiladu ar hyd ochr ogleddol Stryd y Castell.
- Mae gan y beicffordd i'r ddau gyfeiriad lôn bwrpasol ar gyfer beicwyr sy'n teithio i'r naill gyfeiriad neu'r llall.
- Mae wedi'i gwahanu oddi wrth y palmant gan ymyl cwrbyn, ac mae hefyd wedi'i gwahanu oddi wrth weddill y lôn gerbydau drwy ymyl cwrbyn.
- Bydd signalau traffig pwrpasol ar uchderau a safleoedd addas ar gyfer beicwyr ar bob cyffordd angenrheidiol. Ar gyffyrdd lle bo angen, bydd gan y beicwyr gam o'r goleuadau traffig sy'n benodol i'r beicwyr.
- Ymchwilir i atebion storio beiciau ychwanegol.

Mae'r beicffordd yn llwybr allweddol yn y rhwydwaith o feicffyrdd a nodir yn y Papur Gwyn.



Stryd y Castell: Cynllun Parhaol

Lloches fysus foamrywiol

Ynysoedd Bysus

- Bydd rhai o'r safleoedd bws ar Stryd y Castell yn sefyll ar ynys rhwng y llwybr beicio a'r ffordd.
- Bydd croesfan sebra lle bydd beicwyr yn ildio i gerddwyr i fynd i'r ynys a chyrraedd y safleoedd bws.

Mae Safleoedd Bws yn Wyrdd

- Caiff llawer o doeau y safleoedd bws newydd ar draws canol y ddinas eu plannu gyda llwyni a gwyrddni i helpu i annog pryfed pwysig i mewn i'n hamgylchedd.
- Bydd y safleoedd bws newydd gwyrddach hefyd yn helpu gyda phroblemau draenio dŵr, gan amsugno rhywfaint o'r dŵr glaw a'i ddargyfeirio o'n draeniau prysur.

Croestoriad Ynys Bysus



Golwg o Gynllun Ynys Bysus



Croesfan sebra; beicwyr yn ildio i gerddwyr

Stryd y Castell: Cynllun Parhaol

Mapiau Llwybrau Danfoniadau


Opsiwn 1




24 awr



Amseroedd Llwytho: Hanner nos - 10am



24 awr



Amseroedd Llwytho: Hanner nos - 10am



Opsiwn 2

